OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2701

# Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005

## RHAN 2

## DARPARU GWASANAETHAU CYFRYNGOL

### Asiantaethau sy'n cael darparu gwasanaethau cyfryngol

**3.**—(1) Caiff asiantaeth cymorth mabwysiadu gofrestredig neu asiantaeth fabwysiadu ddarparu gwasanaeth cyfryngol mewn cysylltiad â phersonau a fabwysiadwyd cyn 30 Rhagfyr 2005.

(2) Ni chaniateir darparu gwasanaeth cyfryngol ond mewn cysylltiad â phersonau a fabwysiadwyd ac a gyrhaeddodd 18 oed.

(3) Rhaid darparu'r gwasanaeth yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(4) Mae gwasanaeth cyfryngol yn wasanaeth cymorth mabwysiadu at ddibenion adran 2(6) o Ddeddf 2002.

### Ystyr "gwasanaeth cyfryngol" ac "asiantaeth gyfryngol"

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) mae gwasanaeth cyfryngol yn wasanaeth a ddarperir at ddibenion—

(a) cynorthwyo personau mabwysiedig i gael gwybodaeth mewn perthynas â'u mabwysiad; a

(b) hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'u perthnasau.

(2) Cyfeirir at asiantaeth cymorth mabwysiadu gofrestredig neu asiantaeth fabwysiadu sy'n darparu gwasanaeth cyfryngol yn y Rheoliadau hyn fel "asiantaeth gyfryngol".

(3) Nid yw asiantaeth fabwysiadu yn darparu gwasanaeth cyfryngol at ddibenion y Rheoliadau hyn os hi yw'r asiantaeth fabwysiadu briodol mewn perthynas â pherson a fabwysiadwyd ac os nad yw hi ond yn darparu gwybodaeth am fabwysiad y person hwnnw.